



### **CYFARWYDDWR CYNULLEIDFAOEDD**

£50,000 y flwyddyn – amser llawn (gydag oriau gwaith hyblyg yn bosibl)

Penodiad parhaol

Bydd angen rhywfaint o weithio o Gaerdydd

Mae National Theatre Wales yn cael ei ysgogi gan anelu at gysylltiad. Rydym yn gweld theatr fel arf i ddod â phobl ynghyd i fyfrio, archwilio a chael ein hysbrydoli gan straeon ein cenedl. Rydym am i bawb yng Nghymru weld eu hunain, eu cymunedau, eu profiadau a'u dyfodol yn cael eu dychmygu yn y gwaith yr ydym yn ei wneud. Mae ein staff wrth wraidd cyflawni'r pwrpas hwnnw.

#### **YNGLYN Â'R RÔL:**

Gan eistedd fel rhan o Dîm Arweinyddiaeth Strategol National Theatre Wales (NTW), bydd y Cyfarwyddwr Cynulleidfaedd yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Artistig/Prif Weithredwr, Y Cyfarwyddwr Gweithredol/Dirprwy Brif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cydweithio a'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu, gan ddod ag arweiniad a chyfeiriad unedig wrth gyflawni gweledigaeth strategol y Cwmni.

Yn gyfrifol am adeiladu, amrywio a chryfhau perthnasoedd a chysylltedd â chynulleidfaedd a rhanddeiliaid, mae'r rôl hon yn dod ag ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa at galon meddwl sefydliadol trwy ddarparu brand, datblygu cynulleidfa a dull cyfathrebu integredig.

Bydd y rôl yn goruchwyllo sefydlu a rheoli diwylliant brand Cwmni cryf a dulliau arloesol o ddatblygu cynulleidfaedd; arwain ar farchnata gan gynnwys goruchwyllo ymgyrchoedd a gwerthiannau, cyfathrebu gan gynnwys cysylltiadau cyhoeddus, Strategaeth Cynnwys ac Arloesi Digidol, rheoli ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, a CRM a mewnwlediad i ddata cynulleidfa. Bydd deiliad y swydd hon hefyd yn gweithredu fel llefarydd ar ran y Cwmni yn y Cyfryngau a chyda rhanddeiliaid allweddol eraill.

#### **YN GYFRIFOL I**

Cyfarwyddwr Artistig / Prif Weithredwr

Cyfarwyddwr Gweithredol / Dirprwy Brif Weithredwr

#### **YN GYFRIFOL AM**

Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata

#### **PWY RYDYM YN MEDDWL YR YDYCH CHI O BOSIBL:**

Yn weithiwr cyfathrebu proffesiynol profiadol ac arloesol, fe'ch cymhellir i herio'ch dealltwriaeth yn barhaus o anghenion, cymhellion ac ymddygiadau cynulleidfa i ymgysylltu â nhw'n ddilys ac ar eu telerau nhw. Rydych chi'n wych gyda phobl ac am adeiladu cysylltiadau ystyrion rhyngddynt. Rydych chi'n angerddol am effaith y celfyddydau ar fywydau unigol a'r potensial ar gyfer y gymdeithas ehangach, ac rydych am ehangu a dyfnhau mynediad i'r celfyddydau o ganlyniad. Rydych chi hefyd eisiau dathlu straeon Cymru trwy gyfathrebu creadigol, gwreiddiol ac empathig. Bydd gennych hanes da o ganoli cynulleidfaedd a chymunedau o fewn ymgyrchoedd cyfathrebu creadigol, nodedig. Os ydych chi'n adnabod eich hun yn unrhyw ran o hyn, yna byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Mae arnom angen gweithlu sy'n cynrychioli sbectrwm cyfan o brofiadau byw. Po fwyaf amrywiol yw'r safbwyntiau sydd gennym sy'n dylanwadu ar yr hyn a wnawn, y cryfaf a'r mwyaf ystyrion fydd ein gwaith.

Rydym yn annog ceisiadau gan bob cymuned, ffydd, cefndir a chan unrhyw un sy'n profi hiliaeth neu ragfarn ar sail anabledd. Rydym yn cydnabod y model cymdeithasol o anabledd ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n cyflogeion i gael gwared ar rwystrau i gynhwysiant. Rydym hefyd yn ceisio goresgyn y rhwystrau a wynebir gan ymgeiswyr sydd â chyfrifoldebau gofalu trwy ddiwylliant gweithio hyblyg.

## **GWEITHIO I NTW**

Mae pob aelod o staff yn NTW â rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflawni nodau'r Cwmni. Rydym i gyd yn eiriolwyr ar gyfer gwaith ac ethos y Cwmni ac anogir Aelodau'r Cwmni i fynd i weld gwaith, datblygu rhwydweithiau a chysylltiadau, cyflwyno artistiaid newydd ac aelodau cymuned newydd i NTW a helpu i ddatblygu syniadau ar gyfer y dyfodol. Mae mynychu cyfarfodydd y Cwmni a chyfarfodydd Syniadau Creadigol, ac ymgyfraniad gweithredol gyda NTW TEAM (ein rhaglen sy'n cynnwys amrywiaeth eang o gymunedau ym mhob peth a wnawn) yn rhan bwysig a gwerthfawr o waith pawb. Y tu hwnt i dasgau penodol pob swydd-ddisgrifiad, mae'r gweithgareddau Cwmni gyfan hyn yn rhan allweddol o gyfraniad a chyflawniad pob aelod o staff.

## **PRIF GYFRIFOLDEBAU'R RÔL**

Fel aelod o Dîm Arweinyddiaeth Strategol NTW byddwch yn:

- Arwain a modelu diwylliant sefydliadol cryf ac unedig wedi'i adeiladu ar egwyddorion sylfaenol empathi, amrywiaeth, cynwysoldeb a chynaliadwyedd;
- Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu'r cynllun strategol sefydliadol, gan weithio'n agos ag eraill i sicrhau dull cwbl integredig sy'n gosod artistiaid, cynulleidfaedd a chymunedau wrth wraidd NTW
- Gweithio mewn partneriaeth agos i arwain, rheoli ac ysbrydoli cwmni o staff cydlynol ac ymroddedig - gan ddarparu ymdeimlad clir o gyfeiriad sy'n cael ei gyfathrebu'n gyson ac yn cael ei ddarparu trwy set gadarn o systemau a strategaethau;
- Defnyddio arloesedd a chreadigrwydd i ysbrydoli newid ac ymgyrch dros gydraddoldeb; yn fewnol ac yn allanol ar draws y sector celfyddydau a diwylliant, cymdeithas Cymru a thu hwnt - gan hyrwyddo theatr fel grym gweithredol dros newid mewn byd sy'n newid yn gyflym.

## **Datblygu Cynulleidfa**

Sicrhau bod cynulleidfaedd a chynulleidfaedd posibl yn ganolog i holl weithgarwch, meddwl a chyfathrebu NTW.

- Gweithio gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol i sicrhau bod anghenion, cymhellion a safbwyntiau cynulleidfaedd NTW yn llywio meddwl, cynllunio a gwneud penderfyniadau sefydliadol
- Arwain ar ddatblygu a gweithredu fframio datblygu cynulleidfa ein Strategaeth Ein Gwaith, gan gynyddu cyrhaeddiad, ystod ac amrywiaeth cynulleidfaedd NTW i'r eithaf
- Datblygu dulliau arloesol a chreadigol o ymchwilio i gynulleidfaedd a gweithgarwch ymgynghori, adeiladu data, mewnwelediad a dadansoddiad i lywio dealltwriaeth fanwl o agweddau ac ymddygiadau cynulleidfaedd er mwyn llywio cyfeiriad strategol cyffredinol y Cwmni ac ysgogi ffigurau ymgysylltu
- Gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu i osod a monitro targedau incwm y swyddfa docynnau a strategaethau prisio.
- Gweithio gyda'r timau Cydweithio a Datblygiad Creadigol i ddatblygu gweithgareddau a phrosiectau datblygu cynulleidfa traws-sefydliadol creadigol
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Artistig / Prif Weithredwr a chyda'r rhwydwaith o leoliadau yng Nghymru, i ddatblygu sylfaen gynulleidfa ffyddlon ar gyfer theatr ac ar gyfer NTW ledled Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc a chydag unigolion sydd â phrofiad byw o hiliaeth, rhasgarn ar sail anabledd a/neu dlodi
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu a'r Cyfarwyddwr Cydweithio i oruchwylio gweithgaredd Blaen Tŷ pwrpasol ar gyfer pob cynhyrchiad, gan ddwyn ynghyd hyrwyddo cymunedol, datblygu cynulleidfa a chynnwys artistig

## **Marchnata a Chyfathrebu**

I dynnu negeseuon craidd a rhai wedi'u targedu o'r strategaeth a'r rhaglen artistig, a sicrhau bod pob cyfathrebiad yn seiliedig ar werthoedd.

- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Artistig / Prif Weithredwr i ddyfeisio cynlluniau cyfathrebu blynyddol sy'n tynnu negeseuon craidd o'r rhaglen artistig, wedi'u halinio â gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd NTW ac ag anghenion, diddordebau a safbwyntiau ein cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid eraill
- Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata a'r Rheolwr Gweithrediadau ac Effaith Gymdeithasol i ddatblygu a chyflwyno cynnwys dylanwadol, nodedig, wedi'i yrru gan werthoedd sy'n cyfleu negeseuon craidd a rhai wedi'u targedu gan gynnwys ar ein heffaith sefydliadol
- Goruchwylio'r Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata i ddyfeisio a gweithredu ymgyrchoedd marchnata olynol sy'n gyrru ffigurau ymgysylltiad, yn cynnwys gwerthiannau tocynnau, a chefnogi eu gwaith i ddatblygu cyfres newydd o systemau a phrosesau i sicrhau dull cadarn o gynllunio a darparu ymgyrchoedd, yn gysylltiedig â'r gweithredu sefydliadol ehangach
- Goruchwylio'r gwaith o ddylunio a chyflawni Cynllun Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau, wedi'i anelu at leoli a phroffilio NTW yn barhaus ar draws y sector celfyddydau a diwylliannol a thu hwnt, ac o ran rheoli enw da'r Cwmni
- Gweithio gyda'r Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata ac asiantaethau'r Cyfryngau i lunio a datblygu strategaeth hirdymor o ran y wasg a'r cyfryngau gyda'r nod o ddatblygu rôl ac effaith National Theatre Wales ar fywyd dinesig Cymru.
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cydweithio i gefnogi cyfathrebu TEAM a chreu arlwy mwy cydlynol sy'n tynnu ar negeseuon craidd NTW ac yn datblygu cynnwys sy'n benodol i weledigaeth TEAM
- Rheoli cyllidebau ymgyrchoedd cyfathrebu a marchnata, gan gyfrannu at osod targedau incwm

### **Brand y Cwmni**

Gwreiddio brand newydd NTW – gan gynnwys naws llais ac elfennau gweledol – ar draws y Cwmni mewn cyfathrebu a meddylfryd.

- Gweithio gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol i arwain ar weithredu ein brand Cwmni newydd, gan leoli a meithrin enw da a phroffil NTW yng Nghymru ac yn rhyngwladol
- Gweithredu fel llysgennad brand y Cwmni, cefnogi a herio cydweithwyr i sicrhau eu bod yn gweithredu gwerthoedd brand a dull gweithredu cyson ar draws pob agwedd ar y sefydliad
- Sicrhau bod brand Cwmni NTW yn integredig, yn glir ac yn gyson ar draws pob sianel gyfathrebu ac yn adnabyddadwy trwy bob agwedd ar waith y Cwmni, gan gynnwys trwy arwain ar ganllawiau arddull, pecynnau cymorth a hyfforddiant mewnol
- Gweithio gyda'r Weithrediaeth i greu cyfathrebu mewnol cyson ac effeithiol

### **Digidol**

Cynyddu cyrhaeddiad cynulleidfa ar-lein a dyfnder ymgysylltu.

- Arwain ar ddatblygu Strategaeth Cynnwys ac Arloesi Digidol NTW, goruchwylio'r Tîm Cynulleidfaoedd a Chyfathrebu i archwilio ffyrdd o ehangu cyrhaeddiad, mynediad, ymgysylltu ac effaith ddigidol ar draws pob maes o'r busnes
- Arwain y Tîm Cynulleidfaoedd & Chyfathrebu wrth wreiddio ac esblygu gwefan NTW sydd i'w lansio'n fuan, a datblygu ein cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu drwy e-bost, gan greu presenoldeb a gwelededd cryfach i NTW ar-lein a thyfu ffigurau ymgysylltu digidol cynyddol

### **Rheoli Rhanddeiliaid ac Eiriolaeth**

Arwain ar wybodaeth ac ymgysylltu o ran rhanddeiliaid, a datblygu perthnasoedd ar draws amgylchedd gweithredu NTW gan gynnwys o fewn y cyfryngau.

- Arwain ar reoli ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys dyfeisio rhaglenni eiriolaeth gyda rhanddeiliaid allweddol fel offeryn rhagataliol ac ymatebol
- Arwain ar reoli enw da, goruchwylio cysylltiadau â'r Cyfryngau, a gweithio gyda'r Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata i sicrhau bod cynlluniau ar waith ar gyfer meysydd sensitif, a chynghori'r Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol ar faterion gwleidyddol, cyfryngau neu gyhoeddus

- Sicrhau bod targedau gwerthuso'r cyfryngau yn glir ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gan adeiladu llyfrgell o dystiolaeth sy'n ymwneud â llwyddiannau'r sefydliad.
- Ochr yn ochr â'r Weithrediaeth, gweithredu fel llyfarydd ac eiriolwr ar ran y Cwmni mewn fforymau cyhoeddus gan gynnwys y Cyfryngau

### CRM a Mewnwelediad Data Cynulleidfa

Cwblhau gweithrediad y system CRM newydd a chynhyrchu mewnwelediad deinamig o ddata cynulleidfa ar gyfer y Cwmni.

- Arwain ar ddatblygu ac integreiddio system CRM y Cwmni, sef Spektrix ar draws systemau a phrosesau'r sefydliad, gan sicrhau bod mewnwelediad data ac ymgynghori â chynulleidfa a rhanddeiliaid ehangach yn helpu i lunio cyfeiriad strategol cynllunio rhaglenni'r cwmni
- Gweithio gyda'r Rheolwr Gweithrediadau ac Effaith Gymdeithasol a'r Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata i ddatblygu systemau effeithiol ar gyfer cipio, olrhain a dadansoddi data ac adrodd ar gynnydd sefydliadol, dysgu a strategaeth i ddylanwadu ar benderfyniadau gan y Tîm Arweinyddiaeth Strategol, y Bwrdd, a rhanddeiliaid ehangach
- Gweithio gyda'r Weithrediaeth i ddatblygu'r model Teithio Lleoliadau ar gyfer Cymru, a chryfhau perthnasoedd â lleoliadau yng Nghymru i weithio tuag at drefniadau rhannu data cynulleidfa mwy cyson a chynhwysfawr sy'n cydymffurfio â GDPR

### MANYLEB Y PERSON

Mae NTW bob amser yn agored i ystyried buddsoddi mewn rhywun a all ddangos potensial datblygu i ni yn y rôl hon, er efallai na fyddant yn gallu dangos yr holl feini prawf hanfodol a restrir isod.

	Hanfodol	Dymunol
<b>Profiad</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Profiad amlwg o weithredu brand strategol a gweithredol</li> <li>• Profiad o fod wedi cyflawni ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu arloesol yn llwyddiannus a ragorodd ar dargedau gwerthu ac ymgysylltu</li> <li>• Profiad sylweddol o ddatblygu cynulleidfa, yn ddelfrydol mewn cyd-destun creadigol neu ddiwylliannol, gan gynnwys meithrin cynulleidfa ar gyfer cynnwys ar-lein ac wyneb yn wyneb</li> <li>• Profiad o gynnal ymchwil i'r gynulleidfa a gweithgareddau ymgynghori</li> <li>• Hanes o ddefnyddio Systemau CRM yn effeithiol ar draws systemau a phrosesau sefydliadol</li> <li>• Profiad amlwg o ddadansoddeg cynulleidfa a rheoli casglu data er mwyn rhoi cipolwg ar ymgyrchoedd marchnata digidol</li> <li>• Profiad sylweddol o weithredu ar lefel uwch mewn rôl debyg</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Profiad o ddatblygu a gweithredu strategaethau Datblygu Cynulleidfa</li> <li>• Hanes o nodi ac adeiladu cynulleidfa newydd ar gyfer y theatr</li> <li>• Profiad o ddadansoddi targedau swyddfa docynnau a strategaethau prisio effeithiol</li> <li>• Profiad o siarad â phenderfynwyr allweddol mewn sefyllfaedd pwysau uchel</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Profiad amlwg o arweinyddiaeth a rheolaeth – gan ddangos gwerthoedd cryf</li> </ul>	
<b>Gwybodaeth a Sgiliau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arddull arwain ysbrydoledig sy'n cyfuno creadigrwydd ag agwedd bragmatig a thrylwyr at reoli</li> <li>• Y gallu i ddatblygu strategaethau a'u rhoi ar waith er mwyn creu canlyniadau ystyrlon</li> <li>• Y gallu i reoli cydberthnasoedd â rhanddeiliaid</li> <li>• Y gallu i nodi a datblygu cytundebau partneriaeth sy'n fuddiol i bawb</li> <li>• Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol rhagorol, gyda lefel uchel o ddeallusrwydd emosiynol a hyder mewn siarad cyhoeddus</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig</li> <li>• Creadigrwydd lefel uchel a'r gallu i ddyfeisio datrysiadau a strategaethau newydd ac annisgwyl</li> <li>• Gwybodaeth eang am gyd-destun y celfyddydau, diwylliant a'r cyfryngau yng Nghymru</li> <li>• Gwybodaeth a dealltwriaeth o effaith gymdeithasol y celfyddydau a diwylliant a sut i gyfathrebu hyn</li> </ul>
<b>Rhinweddau Personol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sgiliau rhyngpersonol ardderchog a'r gallu i ddatblygu perthynas waith gref a llwyddiannus ar bob lefel</li> <li>• Gwybodaeth gref am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y celfyddydau, ac ymrwymiad i hynny</li> <li>• Defnyddio ymagwedd gadarnhaol, ragweithiol, gynhyrchiol sy'n canolbwyntio ar atebion, ac yn ymgorffori hyn o fewn agweddau tîm</li> <li>• Yn ffynnu mewn amgylchedd sydd weithiau'n un pwysau uchel, gan ymdrin ag amrywiol flaenoriaethau ac amserlenni sy'n newid</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Angerdd amlwg dros theatr, creadigrwydd a'r celfyddydau fel arf ar gyfer newid cymdeithasol</li> <li>• Dealltwriaeth o sector y celfyddydau yng Nghymru a ledled y DU</li> </ul>
<b>Cymwysterau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gradd a/neu gymwysterau proffesiynol mewn cyfathrebu a marchnata NEU brofiad perthnasol helaeth ar y lefel hon</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• MA neu MSc mewn pwnc perthnasol</li> </ul>

## TELERAU AC AMODAU

Cyflog: £50,000 y flwyddyn

Oriau: 35 awr yr wythnos (yn ogystal ag egwyl orfodol am un awr, gan gymryd yr wythnos waith i 40 awr). Byddwn yn ystyried trefniadau gweithio hyblyg ar gyfer yr ymgeisydd iawn.

Gwyliau: 25 diwrnod y flwyddyn (ac eithrio Gwyliau Banc statudol).

Cyfnod: Ar ôl cwblhau cyfnod prawf o 3 mis, bydd hon yn swydd barhaol

Cyfnod rhybudd: Yn dilyn cwblhau cyfnod prawf o 3 mis, y cyfnod rhybudd yw tri mis.

Pensiwn: Rydym yn cynnig cynllun pensiwn rhanddeiliaid gyda Royal London ar gyfer ein holl gyflogeion. Mae cyfraniadau misol yn cael eu tynnu o'ch cyflog; gallwch gyfrannu o leiaf 3% – mwy os

dewiswch – ac rydym yn cyfrannu 5%. Ar ôl i chi gwblhau eich cyfnod prawf a'ch bod yn gwybod eich bod am aros, byddwch yn ymuno â'r cynllun yn awtomatig, a byddwn yn ôl-ddyddio cyfraniadau'r Cwmni i'ch dyddiad cychwyn.

### **SUT I WNEUD CAIS**

Gallwch naill ai ysgrifennu llythyr eglurhaol heb fod yn fwy na 2 dudalen NEU ffilmio fideo ohonoch chi'ch hun yn para dim mwy na 5 munud. Nid ydym yn ffafrio un dull dros y llall, a byddwn yn hapus i dderbyn y naill fformat neu'r llall, felly mae croeso i chi ddewis pa un bynnag sydd fwyaf addas i chi. Yn eich llythyr eglurhaol neu fideo, dywedwch wrthym amdanoch chi, eich profiadau, eich sgiliau a'ch nodweddion sy'n berthnasol i'r swydd, a dywedwch ychydig wrthym am yr hyn yr ydych yn dyheu amdano mewn bywyd. Beth sy'n bwysig i chi? Beth ydych chi'n credu ynddo? Ble hoffech chi fod ymhen 3 blynedd? Pa newidiadau hoffech chi eu gwneud i'n cymdeithas? Beth ydych chi'n hoffi ei wneud? Anfonwch eich llythyr eglurhaol neu fideo atom gyda ffurflen gais wedi'i llenwi a'ch CV (dim mwy na 2 dudalen os gwelwch yn dda, ynghyd â geirdaon) i: [work@nationaltheatrewales.org](mailto:work@nationaltheatrewales.org) erbyn **5pm ar ddydd LLun 22 Awst 2022**.

Os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer, byddwn yn eich gwahodd i gyfweiliad dros Zoom, sy'n debygol o ddigwydd yn ystod yr wythnos yn dechrau **29 Awst 2022**. Mae'r rhain yn sgysiau cyfeillgar, anffurfiol i raddau helaeth am 45 munud gyda thua phedwar o bobl, gan gynnwys Cyfarwyddwr Artistig / Prif Weithredwr NTW, y Cyfarwyddwr Gweithredol / Dirprwy Brif Weithredwr ac aelod o banel TEAM. Byddwn yn anfon amlinelliad bras atoch o'r cwstiynau y byddwn yn eu gofyn i chi, a bywgraffiadau byr o'r uchod ymlaen llaw.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl neu'r broses, mae croeso i chi gysylltu ar [work@nationaltheatrewales.org](mailto:work@nationaltheatrewales.org)